# Datblygu'r Gweithlu
# Gofal Cymdeithasol
# Cynllun Lleol ar gyfer Wrecsam
# 2024 / 2025

## Gwasanaeth Adnoddau Dynol
## a Datblygu Sefydliadol
## Datblygu'r Gweithlu

## Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP)

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol ar y cyd ac mae ei haelodaeth a'i swyddogaeth wedi'u nodi yn ein cynllun cyfathrebu:
Datblygu'r Gweithlu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae'r Bartneriaeth wedi'i strwythuro heb gynrychiolaeth ffurfiol gan ei bod yn agored i bob darparwr cofrestredig yn Wrecsam.

Blaenoriaethau cyffredinol y bartneriaeth yw:

*"Cydweithio mewn partneriaeth er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn y sector gofal i bobl Wrecsam."*

Yr amcanion allweddol yw:

- Codi proffil y sector gofal, yn fewnol ac yn allanol.
- I gydlynu cyfleoedd hyfforddiant, datblygu a chymwysterau.
- Rhannu arfer da, e.e. ynghylch recriwtio a chadw.
- Gwella mynediad at gronfeydd hyfforddiant.
- Nodi'r materion penodol sy'n ymwneud â'r gweithlu yn Wrecsam – tymor byr/canolig a hirdymor.
- Rhannu gwybodaeth / darparu ymateb cydlynol i bapurau ymgynghori.
- Ymateb i fentrau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol yn ymwneud â'r gweithlu.

Mae'r Bartneriaeth yn parhau i nodi mynediad at gymwysterau, cyrsiau byr ac eDdysgu fel blaenoriaeth. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn narpariaeth hyfforddiant a chymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi'r sector.

## Cynllun Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Mae'r cynllun lleol wedi cael ei ddatblygu gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o Ddadansoddiad o Anghenion Hyfforddi blynyddol gan y Bartneriaeth. Rydym wedi sefydlu perthnasoedd gyda darparwyr lleol a chasglu gwybodaeth trwy ein Tîm Contractau a Chomisiynu.

Gweler Atodiad A (Oedolion) ac Atodiad B (Plant) i weld yr hyfforddiant sydd wedi'i gynllunio.

Mae'r Cynllun wedi'i gyhoeddi ar y wefan: Datblygu'r Gweithlu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Cyswllt Arweiniol ar gyfer SCWDP**
**Adam Morris, Arweinydd Datblygu'r Gweithlu**
**E-bost: adam.morris@wrexham.gov.uk**

## Adnoddau

Mae gan y Cyngor Wasanaeth Datblygu'r Gweithlu ar gyfer swyddogaeth y gwasanaethau cymdeithasol. Mae darpariaeth y SCWDP yn rhan o gylch gorchwyl y gwasanaeth hwn. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant a datblygu'r gweithlu gan eu bod yn ei ystyried yn faes blaenoriaeth.

Y rhaglen cymorth hyfforddiant dangosol gan Gofal Cymdeithasol Cymru yw **£472,012**. Wrecsam yw un o'r ychydig o Awdurdodau Lleol sy'n parhau i fuddsoddi adnoddau ychwanegol i gefnogi'r grant yn ogystal â'i 30% gorfodol.

## Cyfeiriad Strategol a Blaenoriaethau Lleol

- Alinio datblygu'r gweithlu gyda **Chymru Iachach – Ein strategaeth ar gyfer y gweithlu** iechyd a gofal cymdeithasol, gweithio gyda phartneriaid i gyd-gynhyrchu cynlluniau gweithredu/darparu wedi'u dylunio o amgylch y themâu allweddol.
  - Datblygu gweithlu sy'n barod yn ddigidol
  - Addysg a dysgu rhagorol
  - Darparu hyfforddiant cymhwyso a hyfforddiant ôl-gymhwyso gwaith cymdeithasol
  - Arweinyddiaeth a dilyniant
  - Siapio a chyflenwi'r gweithlu
- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** - Byddwn yn parhau i gefnogi darparwyr cofrestredig i gynyddu lefelau eu staff cymwys trwy gynnig hyfforddiant a chyfleoedd asesu.
- Byddwn yn parhau i gefnogi gweithrediad **Fframwaith Sefydlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru Gyfan a Fframwaith Sefydlu Rheolwyr Gofal Cymdeithasol.**
- Ymateb i **adborth AGC** a darparu hyfforddiant ar atal, ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn seiliedig ar gryfderau.
- Hyfforddiant asesiadau **gofalwyr** ac adolygu'r hyfforddiant sydd gennym ar gael i ofalwyr di-dâl.
- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi dyrannu cyllid i Awdurdodau Lleol i gynyddu niferoedd eu myfyrwyr gwaith cymdeithasol a noddir, i gefnogi'r cynllun **"Meithrin Cronfa o Dalent ein Hunain"**. Yn Wrecsam byddwn yn parhau i gefnogi hyd at wyth myfyriwr Gwaith Cymdeithasol drwy'r Brifysgol Agored a hyd at bedwar myfyriwr Therapi Galwedigaethol dan hyfforddiant gyda Phrifysgol Wrecsam.
- Bydd dull rhanbarthol o ran canlyniadau dysgu i gefnogi'r **tair blynedd gyntaf mewn ymarfer** yn parhau i gael ei gyflawni'n lleol.
- Byddwn yn parhau i gefnogi staff mewn swyddi **Aseswyr Gofal Cymdeithasol** i ennill y cymwysterau priodol a argymhellir.
- Byddwn yn gweithredu'r **Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol** i Gymru a darparu hyfforddiant i gefnogi hyn.
- Byddwn yn cefnogi'r sector i **recriwtio a dargadw** staff gan gynnwys Ffeiriau Swyddi.
- Byddwn yn cynnal y cysylltiadau â'r **canlyniadau lles yng Nghynllun y Cyngor** a'r blaenoriaethau yn Strategaeth Pobl newydd.
- Darparu'r Cynllun Gweithredu Treigl Rhanbarthol.
- Darparu hyfforddiant i gefnogi Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a hyfforddiant y Ddeddf Galluedd Meddyliol.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i weithwyr gyflawni cymwysterau **Iechyd Meddwl** arbenigol.
- Parhau i fonitro cynnydd y cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol a buddsoddi mewn cymwysterau **K102 a KZW123**.
- Ymateb i anghenion datblygu gan gysylltu â'r tîm gofal cymdeithasol sy'n gweithio yng Ngharchar Berwyn.
- Cryfhau'r defnydd o drosolwg rheoli; defnyddio cronolegau; asesu; gweithio gyda rhieni; a chanlyniadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn gan ymateb i adroddiadau arolygu.
- Cryfhau'r defnydd o **fyfyrio mewn sesiynau goruchwylio** i ymateb i adroddiadau arolygu.
- Hyrwyddo e-ddysgu a **dulliau digidol** eraill fel dull gwaith cymysg i ddatblygu'r gweithlu.
- Parhau i fuddsoddi hyfforddiant ar **Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol** ac **Ymarfer Anghyfyngedig** ar gyfer gwasanaethau darparwyr.
- Cefnogi datblygiadau Dysgu a Datblygu Ôl Gymeradwyaeth y Fframwaith Maethu Cenedlaethol ar

gyfer **Gofalwyr Maeth** er mwyn gwella sgiliau gweithwyr cymdeithasol wrth gefnogi hyn a gwaith uniongyrchol â gofalwyr maeth.

- Hyrwyddo pwysigrwydd **Cofnodi Profiadau Bywyd** ac ymarfer sy'n **Seiliedig ar Drawma** i wella hunan-barch yn ein Plant sy'n Derbyn Gofal.
- Rydym yn gweithio gyda Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i gynyddu capasiti gweithwyr cymdeithasol i weithio ochr yn ochr â'r Heddlu wrth **Sicrhau'r Dystiolaeth Orau** .
- Cefnogi ein fframwaith datblygu gyrfaoedd i weithwyr cymdeithasol ochr yn ochr ag ADaDS ac uwch reolwyr fel rhan o'n strategaeth recriwtio a chadw staff ehangach.
- Parhau i ddatblygu dealltwriaeth o risg a dadansoddi wrth wneud penderfyniadau i **ddiogelu plant**.
- Trefnu hyfforddiant ar y cyd i gefnogi gweithredu'r Fframwaith **Gofal Iechyd Parhaus** sydd wedi'i adolygu.
- Cynyddu capasiti ar gyfer asesiadau arbenigol mewn Ymddygiad Rhywiol Niweidiol a chapasiti rhianta'r rhai sydd ag anabledd dysgu cydnabyddedig trwy ddefnyddio Meddalwedd Llawlyfr Asesu Rhieni (PAMS).
- **Darpariaeth Iaith Gymraeg** - bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn Wrecsam. Rydym wedi darparu hyfforddiant ar fframwaith strategol "Mwy na geiriau" ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a hyfforddiant sgiliau Cymraeg penodol i staff gofal uniongyrchol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n Coleg Addysg Bellach lleol i ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg.
- **Hyfforddiant ILM a Sgiliau Digidol** – parhau i gefnogi unigolion sy'n astudio cymwysterau ILM Arweinyddiaeth a Rheoli, ECDL ac Excel.
- Parhau i gefnogi BIPBC gyda'r **Chwe Cham** i Lwyddiant (Rhaglen Gofal Diwedd Oes), yn cynnwys asesu portffolios, gwiriadau cynaliadwyedd a chyflwyno rhaglenni dysgu byr.
- Gweithio gyda darparwyr i gynnwys **gofal gan unigolion** mewn hyfforddiant codi a symud. Cefnogi'r sector i barhau'r model hyfforddwr allweddol.
- Cefnogi ymgysylltiad pobl allweddol i gefnogi dysgwyr sy'n ymgymryd â **chymwysterau galwedigaethol**, trwy ddarparu gweithdai ar ymarfer myfyriol, mentora a rôl y tyst arbenigol.
- Cynnig gweithdai Cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Craidd i'r sector Gofal Cymdeithasol ehangach, fel llwybr i hyfforddiant diweddaru ac i hyrwyddo dysgu cymheiriaid.
- Archwilio a chynnwys **model Gwaith Cymdeithasol** newydd o fewn Gofal Cymdeithasol i Blant ar sail dull sy'n seiliedig ar drawma / cryfhau teuluoedd.
- Parhau i ddatblygu ein model Gwaith Cymdeithasol i Oedolion gan gynnwys dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn seiliedig ar gryfderau.
- **Gofal yn Nes at y Cartref** - rydym wedi agor tri Chartref Plant newydd i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn Wrecsam. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gael cynllun hyfforddi arbenigol gan gynnwys mentoriaid o fewn timau. Bydd dau gartref arall yn cael eu hagor yn 2024.
- Parhau i gefnogi gweithrediad y fframwaith hyfforddiant **Awtistiaeth a Dementia** a'r cod ymarfer.

## Hyfforddiant Therapi Galwedigaethol

Bydd y tîm Therapi Galwedigaethol yn gallu cael mynediad at amrywiaeth o gyrsiau proffesiynol.

Byddwn yn parhau i archwilio a darparu rhaglen cymhwyster Therapi Galwedigaethol 'Meithrin Cronfa o Dalent ein Hunain' eleni mewn partneriaeth â Phrifysgol Wrecsam.

Bydd hyfforddiant i'r tîm Therapi Galwedigaethol yn cynnwys:-

- Pasbort Codi a Symud a Hyfforddwyr Allweddol
- Seddau Pediatrig Cymhleth
- Hyfforddiant Codi a Symud yn Gorfforol Pediatrig Cymhleth
- Asesydd Dibynadwy neu BTEC mewn darparu offer cymunedol

- Gofal gan Unigolyn / Gofal Gydag Urddas
- Hyfforddiant Addasiadau
- Hyfforddi a Mentora
- Cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Hyfforddiant i alluogi llwybr gyrfa
- Ymyrraeth Gorfforol a Seicolegol Anymosodol

**Hyfforddiant / cymwysterau rheoli -** Byddwn yn parhau i gynnig datblygiad rheoli i'r sector gofal cymdeithasol yn seiliedig ar arweinyddiaeth dosturiol a chydweithredol Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm** – Rydym yn parhau i fuddsoddi yn y cymhwyster hwn i reolwyr gweithredol ac mae angen i ni fonitro lefelau dargadw staff yn y maes hwn.

## Hyfforddiant Cymhwyso Gwaith Cymdeithasol – Gradd Gwaith Cymdeithasol – Gweithwyr a Gefnogir

Rhaglen Meithrin Cronfa o Dalent ein Hunain: Rydym yn parhau i noddi a chefnogi 12 gweithiwr / myfyriwr presennol sydd ar eu hail a'u trydedd flwyddyn o astudiaeth ar gyfer Gradd Gwaith Cymdeithasol trwy'r Brifysgol Agored. Bydd hyd at chwe gweithiwr arall yn dechrau Gradd Gwaith Cymdeithasol trwy'r Brifysgol Agored eleni yn dilyn proses recriwtio lwyddiannus iawn.

Rydym yn cael cyfarfodydd rheolaidd â phob gweithiwr sy'n cael eu noddi er mwyn cynnig cefnogaeth a'u galluogi i gael cefnogaeth gan eu cymheiriaid tra maent yn cwblhau eu hastudiaethau. Rydym hefyd yn trefnu a chydlynu lleoliadau Cyfleoedd Dysgu Ymarfer ar gyfer myfyrwyr sydd ar eu hail a'u trydedd flwyddyn.

## Hyfforddiant Gradd Gwaith Cymdeithasol Eraill – Myfyrwyr a "Gynhelir" a Dysgu Ymarfer

Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i Gyfleoedd Dysgu Ymarfer o ansawdd uchel i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol a pharhau i gefnogi hyd at 45 o fyfyrwyr a 'gynhelir' ar draws bob lefel o hyfforddiant dan drefniadau partneriaeth gyda Phrifysgol Wrecsam. Er gwaethaf yr heriau a wynebodd y gweithlu eleni, mae diddordeb mewn cymwysterau Asesu Ymarfer perthnasol wedi cynyddu. Mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at amrywiaeth ac ehangder cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr.

## Hyfforddiant Ôl Gymhwyso Gwaith Cymdeithasol

**Cymwysterau Addysgu Ymarfer** – Mae gennym gyllid ar gael i hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol a gyflogir gan naill ai'r Awdurdod Lleol neu asiantaethau Gwaith Cymdeithasol/Gofal Cymdeithasol eraill, i gwblhau Cymwysterau Addysgu Ymarfer. Rydym wedi buddsoddi'n helaeth yn yr hyfforddiant hwn eleni, sydd wedi ein cefnogi i gyflawni ein cyfrifoldeb partneriaeth.

**Cyfnerthu / 3 blynedd gyntaf mewn Ymarfer** -– Mae'r Cyngor wedi ffurfioli'r broses ar gyfer mynediad at ddyfarniadau cyfnerthu, yn unol â dogfen "3 Blynedd Gyntaf mewn Ymarfer" Gofal Cymdeithasol Cymru. Er mwyn cefnogi'r gweithlu newydd gymhwyso gyda'r heriau eleni, mae ein Grŵp "Blwyddyn gyntaf mewn ymarfer" yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd.

**Tystysgrif i Raddedigion "Porth Agored" mewn Cyfnerthu Ymarfer Gwaith Cymdeithasol** – Datblygwyd gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, mae wedi bod ar gael ers mis Mai 2013. Mae Partneriaid bellach yn ymwybodol o'r cysylltiad ffurfiol â Chofrestru. Mae dros 30 o Weithwyr Cymdeithasol yn ymgysylltu â'r rhaglen ar hyn o bryd.

**Asesydd Iechyd Meddwl a Lles Gorau (BIA)** – Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â Phartneriaeth Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy Swydd Gaer ar gyfer y Dyfarniad Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Caer.

***Mae'r cynllun ar gael ar y Rhyngrwyd ar:*** [Datblygu'r Gweithlu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam]

## Cynllun SCWWDP Lleol WRECSAM

### Cynllun Gweithredu Treigl - 2024/25

**Tabl 1 – BLAENORIAETH: Datblygu gweithlu sy'n barod yn ddigidol (camau 15-17)**

| Camau gweithredu | Canlyniadau a Gynlluniwyd / Effaith | Partneriaid sy'n Cymryd Rhan | Cynnydd (adroddiad canol blwyddyn yn unig) | Canlyniadau (adroddiad diwedd blwyddyn yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| Parhau i ddatblygu ystod o fodiwlau e-ddysgu (gan ychwanegu at y catalog Gwaith Cymdeithasol o'r Gronfa Ddysgu). | Dysgu hygyrch ar draws y sector<br>Gallu datblygu i ddiwallu anghenion newidiol. | BIPBC<br>ALlau eraill<br>Y Sector Annibynnol a'r Trydydd Sector. | Mesur niferoedd cwblhau. Arolwg i'r sector. | I'w asesu |
| Parhau i ddarparu sesiynau rhagweithiol drwy Zoom, Skype a Teams ar draws y gweithlu. | Dysgu hygyrch ar draws y sector. | Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Hyfforddwyr wedi'u comisiynu<br>Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch | I'w asesu | I'w asesu |
| Archwilio Cyllid Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) a rhannu mynediad at ddysgu sgiliau digidol. | Gwella sgiliau digidol. | Undebau | I'w asesu | I'w asesu |
| Gweithio gyda Chymunedau Digidol Cymru i ddarparu dysgu. | Cyfleoedd dysgu hygyrch ar draws y sector.<br>Gwella sgiliau | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| Cyfarfod â'r dysgwyr gan ddefnyddio llwyfannau digidol.<br>Darparu cymwysterau/hyfforddiant drwy lwyfannau digidol. | Gwella llythrennedd digidol.<br>Ffyrdd Modern o Weithio (MWOW) | Ar draws y sector. | Gwerthuso.<br>Ystadegau cwblhau. | I'w asesu |

**Tabl 2 – BLAENORIAETH: Addysg a dysgu rhagorol (camau 18 - 24)**

| Camau gweithredu | Canlyniadau a Gynlluniwyd / Effaith | Partneriaid sy'n Cymryd Rhan | Cynnydd (adroddiad canol blwyddyn yn unig) | Canlyniadau (adroddiad diwedd blwyddyn yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| Parhau i ddatblygu ystod o fodiwlau e-ddysgu (gan ychwanegu at y catalog Gwaith Cymdeithasol o'r Gronfa Ddysgu). | Dysgu hygyrch, hyblyg. | ALlau eraill, y sector ehangach. | I'w asesu | I'w asesu |
| Calendr o ddigwyddiadau hyfforddiant gan gynnwys Diogelu, Iechyd a Diogelwch, sgiliau datblygu ac arbenigeddau. | Gwella gwybodaeth a sgiliau. Cefnogi cymwysterau. | Gofal Cymdeithasol Cymru<br>Darparwyr Hyfforddiant Lleol<br>Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch | I'w asesu | I'w asesu |
| Cydweithio gydag Iechyd (pamffledi hyfforddiant a chael mynediad at hyfforddiant yn ôl yr angen). | Gwella gwybodaeth am gyflyrau iechyd. | BIPBC<br>Ar draws y sector | I'w asesu | I'w asesu |
| Hyrwyddo Adnoddau GCC drwy'r Bartneriaeth Leol. | Sefydlu dull cyson / adnoddau y gellir ymddiried ynddynt. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| Gofal Iechyd Parhaus - gweithio ar y cyd. Cyd-ddarparu hyfforddiant Iechyd a Gofal Cymdeithasol. | I'w asesu | BIPBC ac ALI | I'w asesu | I'w asesu |
| Darparu hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| Hyfforddiant ac ymarfer Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol o fewn darparwyr mewnol. | Gwella sgiliau a hyder y gweithlu sy'n cefnogi pobl ag anghenion cymhleth. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| Rhoi cynllun hyfforddiant ar gyfer Cartrefi Plant newydd yr ALI ar waith. | Cefnogi Gofal Nes at y Cartref<br>Sicrhau bod timau staff yn gallu diwallu anghenion cymhleth plant sy'n derbyn gofal. | ALI Arall<br>Hyfforddwyr wedi'u comisiynu<br>Iechyd<br>Penaethiaid Gwasanaeth / Comisiynwyr | I'w asesu | I'w asesu |

| Camau gweithredu | Canlyniadau a Gynlluniwyd / Effaith | Partneriaid sy'n Cymryd Rhan | Cynnydd (adroddiad canol blwyddyn yn unig) | Canlyniadau (adroddiad diwedd blwyddyn yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| Hwyluso hyfforddiant Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan i Reolwyr ac Uwch Staff Cymorth. Cymwysterau:<br>• Craidd – Nifer a ddisgwylir i'w gwblhau 40<br>• Ymarfer 2 – Nifer a ddisgwylir i'w gwblhau 10<br>• Ymarfer 3 – Nifer a ddisgwylir i'w gwblhau 8<br>• Lefel 4 – Nifer a ddisgwylir i'w gwblhau 11<br>• Lefel 5 – Disgwyliadau cwblhau 3 | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| Darparu:<br>• Introduction to Training Award.<br>• TAQA - Yn cefnogi dysgwr o'r sector annibynnol ar hyn o bryd i gwblhau ei hyfforddiant gyda Choleg Cambria, maent yn cefnogi dysgwyr sydd wedi cofrestru â'n canolfan. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| • Learning and Development Rep programme.<br>Bydd cymhwyster craidd yn cael ei agor allan i'r sector i gefnogi hyfforddiant a datblygiad, cynnal arferion presennol. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |

**Tabl 3 – BLAENORIAETH: Darparu hyfforddiant cymhwyso a hyfforddiant ôl-gymhwyso gwaith cymdeithasol**

| Camau gweithredu | Canlyniadau a Gynlluniwyd / Effaith | Partneriaid sy'n Cymryd Rhan | Cynnydd (adroddiad canol blwyddyn yn unig) | Canlyniadau (adroddiad diwedd blwyddyn yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| Parhau i gefnogi:<br>• Tair blynedd gyntaf mewn Ymarfer yn cynnwys Porth Agored<br>• Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol.<br>• Dyfarniad Addysg Ymarfer<br>• Myfyrwyr a gynhelir<br>• Cymhwyster 'Grow our own' y Brifysgol Agored<br>• Cynnydd | Gweithwyr cefnogi i gymhwyso fel Gweithwyr Cymdeithasol.<br>Cefnogi a datblygu Gweithwyr Cymdeithasol presennol. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |

**Tabl 4 – BLAENORIAETH: Arweinyddiaeth ac Olyniaeth (camau 25 - 27)**

| Camau gweithredu | Canlyniadau a Gynlluniwyd / Effaith | Partneriaid sy'n Cymryd Rhan | Cynnydd (adroddiad canol blwyddyn yn unig) | Canlyniadau (adroddiad diwedd blwyddyn yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| Darparu cymwysterau rheoli mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cefnogi'r sector gyda chymwysterau L4 a 5. Bydd yr hyfforddiant yma'n cael ei gynnig fel cymysgedd o ddysgu wyneb yn wyneb ac ar y we er mwyn bodloni gofynion y sector. | Cefnogi lles.<br>Datblygu gwytnwch a gyrfaoedd.<br>Cefnogaeth gan gymheiriaid. | Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch, Hyfforddwyr lleol wedi'u comisiynu | I'w asesu | I'w asesu |
| Mynediad i gyrsiau rheoli ILM. | Cefnogi lles.<br>Datblygu gwytnwch a gyrfaoedd.<br>Cefnogaeth gan gymheiriaid. | Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch, Hyfforddwyr lleol wedi'u comisiynu | I'w asesu | I'w asesu |
| Hyrwyddo arweinyddiaeth dosturiol a chydweithredol drwy CChC. | Cefnogi lles.<br>Datblygu gwytnwch a gyrfaoedd.<br>Cefnogaeth gan gymheiriaid. | Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch, Hyfforddwyr lleol wedi'u comisiynu | I'w asesu | I'w asesu |
| Cynnig hyfforddiant a chymwysterau Hyfforddi a Mentora. | Cefnogi lles.<br>Datblygu gwytnwch a gyrfaoedd.<br>Cefnogaeth gan gymheiriaid. | Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch, Hyfforddwyr lleol wedi'u comisiynu | I'w asesu | I'w asesu |
| Cyflwyno Cyfarfod Sefydlu Rheolwyr Gofal Cymdeithasol Cymru fel y gofynnwyd gan reolwyr gan gynnig cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer cyflwyno a chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. | Cefnogi lles.<br>Datblygu gwytnwch a gyrfaoedd.<br>Cefnogaeth gan gymheiriaid. | Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch, Hyfforddwyr lleol wedi'u comisiynu | I'w asesu | I'w asesu |
| Fforymau RM a grwpiau cymorth cymheiriaid. | Cefnogi lles.<br>Datblygu gwytnwch a gyrfaoedd.<br>Cefnogaeth gan gymheiriaid. | Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch, Hyfforddwyr lleol wedi'u comisiynu | I'w asesu | I'w asesu |

**Tabl 5 – BLAENORIAETH: Siapio a chyflenwi'r gweithlu (camau 28 - 32)**

| Camau gweithredu | Canlyniadau a Gynlluniwyd / Effaith | Partneriaid sy'n Cymryd Rhan | Cynnydd (adroddiad canol blwyddyn yn unig) | Canlyniadau (adroddiad diwedd blwyddyn yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddo hyfforddiant sgiliau'r Gymraeg. Cyrsiau blasu hunan-ddysgu, lle gall dysgwyr fynd ar eu cyflymder eu hunain a chwblhau lefelau amrywiol. Cyrsiau dan arweiniad tiwtor:<br>Mynediad 1<br>Sylfaen 1<br>Canolradd 1<br>Uwch 1<br>Hyfedredd | Sefydlu 'Iaith Gwaith'.<br>Datblygu sgiliau ieithyddol.<br>Cynnig Gweithredol. | Addysg Bellach - Coleg Cambria | I'w asesu | I'w asesu |
| Hyrwyddo hyfforddiant ILM a sgiliau Digidol. | Sefydlu 'Iaith Gwaith'.<br>Datblygu sgiliau ieithyddol.<br>Cynnig Gweithredol. | Addysg Bellach - Coleg Cambria | I'w asesu | I'w asesu |
| Arweinyddiaeth a Rheoli ILM<br>ECDL<br>EXCEL | Sefydlu 'Iaith Gwaith'.<br>Datblygu sgiliau ieithyddol.<br>Cynnig Gweithredol. | Addysg Bellach - Coleg Cambria | I'w asesu | I'w asesu |
| Cefnogi a gwneud cysylltiadau gyda Strategaeth Lles Iechyd a Lles Gofal Cymdeithasol Cymru. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| Gofalwyr Di-dâl - mynediad at hyfforddiant. Grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid trwy ddull gweithredu Cefnogwr Iechyd Meddwl a Lles. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| Cefnogi prosesau casglu data blynyddol Gofal Cymdeithasol Cymru drwy gynnal perthnasoedd gyda phartneriaid lleol. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |

**Tabl 6 – BLAENORIAETH: Denu a Recriwtio - Thema 2**

Gofalwn -
Cefnogi'r Prosiect Camu i'r Gwaith. Cefnogi Digwyddiadau Cenedlaethol.

Fforymau Contractau a Chomisiynu:

| Camau gweithredu | Canlyniadau a Gynlluniwyd / Effaith | Partneriaid sy'n Cymryd Rhan | Cynnydd (adroddiad canol blwyddyn yn unig) | Canlyniadau (adroddiad diwedd blwyddyn yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Gofal Cartref Mewnol. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| Adolygu'r broses ymgeisio a recriwtio ar sail gwerthoedd. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| Hyfforddiant a Recriwtio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| Cefnogi'r Strategaeth Gyfathrebu / datganiadau i'r wasg / rhannu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| Darpariaeth gofal cynaliadwy a fforddiadwy: Ystyried comisiynu ymarfer. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| Gwella lefelau dargadw staff. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| Cydlynu ymgyrch marchnata parhaus wedi'i dargedu. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| 'Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol' Cymunedau am Waith. | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |
| Hyrwyddo'r porth swyddi Swyddi - WeCare (gofalwn.cymru) | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu | I'w asesu |

**Tabl 7 - BLAENORIAETH: Cynyddu nifer y myfyrwyr gwaith cymdeithasol a noddir ac a gynhelir gan bob awdurdod lleol**

| Camau gweithredu | Canlyniadau a Gynlluniwyd / Effaith | Partneriaid sy'n Cymryd Rhan | Cynnydd (adroddiad canol blwyddyn yn unig) | Canlyniadau (adroddiad diwedd blwyddyn yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| Cefnogi 6 o fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol | 'Grow our Own' i gynorthwyo i recriwtio a dargadw staff Gwytnwch o fewn gweithwyr cymdeithasol | Glyndŵr Prifysgol Bangor y Brifysgol Agored | I'w asesu | I'w asesu |
| Cefnogi 4 o fyfyrwyr Therapi Galwedigaethol | 'Grow our Own' i gynorthwyo i recriwtio a dargadw staff Gwytnwch o fewn gweithwyr cymdeithasol | Glyndŵr Prifysgol Bangor y Brifysgol Agored | I'w asesu | I'w asesu |

# ATODIAD A: CALENDR (OEDOLION) 2023/24

## Teitl / Maes y Cwrs

### DIOGELU

Digwyddiadau dysgu ar y rhyngrwyd am Ddiogelu (Plant ac Oedolion) Grwpiau A, B ac C (E ac F ar SAM)
Diogelu Oedolion - Grŵp B
Rôl yr Ymarferydd Arweiniol (Oedolion) - Grŵp C
Diogelu Oedolion mewn Perygl - Deddf SSWB Grŵp D
Diogelu Plant Grŵp B
Deddf Plant 1989 Adran 47
Cynadleddau Achos a Grwpiau Craidd Grŵp C
Diogelu Oedolion mewn Perygl - Deddf SSWB Grŵp D
Gofyn a Gweithredu Trais yn Erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol (Grŵp 2)
Operation Repeat - Hyfforddiant ar Drosedd ar Stepen y Drws ac Ymwybyddiaeth o Sgamiau Grŵp C
Atal niwed hapchwarae i weithwyr proffesiynol Grŵp C
Cyffuriau ac Alcohol (Adferiad)
Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a Deddf Galluedd Meddyliol

### CYFFREDINOL AC ARBENIGOL

Sgiliau Adrodd a Chofnodi / Gwneud Cofnodion Effeithiol
Hyfforddiant Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS) a chymhwyster Btec
Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth
Colli synhwyrau
Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
Gofal Dementia sy’n Canolbwyntio ar y Person
Ymwybyddiaeth Ofalgar
Ymyrraeth Gorfforol a Seicolegol Anymosodol (NAPPI) / Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol Lefelau 1-3 a hyfforddi’r hyfforddwr
Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol
Trin Meddyginiaeth yn Ddiogel
Chwe Cham – Gofal Diwedd Oes
Deall Ymddygiad / Cyfathrebu
Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl
Gweithio gyda phobl sy’n celcio
Sgiliau hyfforddi
Ymwybyddiaeth o Epilepsi (Iechyd)
Sgyrsiau Gwell
Lefel 4 - Rhaglen dysgu a datblygu Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheoli
Gweithdai Cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Craidd - Oedolion, Plant a Phobl Ifanc
Egwyddorion a Gwerthoedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 7 gweithdy
Iechyd a Lles - 15 gweithdy
Ymarfer Proffesiynol fel Gweithiwr iechyd a Gofal Cymdeithasol - 6 gweithdy
Diogelu unigolion - 3 gweithdy
Iechyd a Diogelwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol - 4 gweithdy

### PENODOL I WAITH CYMDEITHASOL

Porth Agored – Gweithdai Cyfnerthu
Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol
Cynnal Cymhwysedd Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol
Cymhwyster Addysgwr Ymarfer
Gweithdai Addysgwr Ymarfer
Gofal Iechyd Parhaus
Goruchwyliaeth Fyfyriol

Ymdrin â Gwrthdaro / sgyrsiau anodd

**IECHYD A DIOGELWCH**

Pasbort Codi a Symud (2 ddiwrnod)
Cymorth Cyntaf Brys yn y Gwaith
Cwrs Diweddaru Codi a Symud (1 diwrnod)
Diogelwch Bwyd (CIEH 1 diwrnod)
Ymyrraeth Gorfforol a Seicolegol Anymosodol (NAPPI) / Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol a hyfforddi'r hyfforddwr
Codi a Symud Llwythi (e-ddysgu)
Hyfforddwr Allweddol Codi a Symud (3 diwrnod)
Diweddaru Hyfforddwyr Allweddol Codi a Symud (1 diwrnod)
Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch
Rheoli Iechyd a Diogelwch
Symud a Chario (yn benodol i Therapi Galwedigaethol)
Iechyd a Diogelwch gan gynnwys Rheoli Heintiau (e-ddysgu)
Ymchwilio Damweiniau, Asesu Risg a Monitro
Asesiad Risg
Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (3 diwrnod cymhwyso)
Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (2 ddiwrnod cymhwyso)
Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys yn y Gwaith
Swyddog cyfrifol
Diogelwch Personol (12 diwrnod ymwybyddiaeth a diwrnod llawn - risg uchel)

## ATODIAD B: CALENDR (PLANT) 2024/25

## Teitl / Maes y Cwrs

**DIOGELU**

Hyfforddiant diogelu ar gyfer asiantaethau partner
Diogelu plant ag anableddau Grŵp B
Camfanteisio'n Droseddol ar Blant Grŵp B
Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol Grŵp B
Ymddygiad Rhywiol Niweidiol Grŵp B
Gwydnwch Digidol Grŵp B
Cynadleddau a Grwpiau Craidd Grŵp C

**CYFFREDINOL**

Gwaith Stori Bywyd
MAKATON - dechreuwyr a MAKATON - canolraddol
Deddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid i bobl ifanc
Diogelwch Personol
Ymarfer sy'n Seiliedig ar Drawma
Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol
Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol
Cryfhau Teuluoedd
Awtistiaeth: Gweithio gyda phobl ifanc â nodweddion awtistig

**PENODOL I WAITH CYMDEITHASOL**

Asesu Rhieni
Asesu a Dadansoddi Risg i Weithwyr Cymdeithasol
Goruchwyliaeth Fyfyriol
Cronolegau

**GWEITHIO AR Y CYD/ MENTRAU CENEDLAETHOL A RHANBARTHOL**

Hyfforddiant Ymchwilio ar y Cyd
Sicrhau'r Dystiolaeth Orau
Dysgu a Datblygu i Ofalwyr Maeth ar ôl Cymeradwyaeth

**IECHYD A DIOGELWCH (i gyd yn e-Ddysgu ac mewn dosbarth)**

Rhoi a Thrin Meddyginiaeth yn Ddiogel
Diogelwch Bwyd
Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch/Rheoli Heintiau
Hyfforddiant Diogelwch Seddi Car
Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys yn y Gwaith

**GWASANAETH MAETHU**

Cofnodi, cyflwyno a rhannu gwybodaeth (hanner diwrnod)
Gweithio Gyda Theuluoedd Biolegol a Chyswllt
Diogelu gan gynnwys honiadau
Cefnogi Addysg a Datblygiad
Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys yn y Gwaith

## GWASANAETH CEFNOGI TEULUOEDD INTEGREDIG

Gwella Ysgogiad
Ymyraethau'n canolbwyntio ar amcanion
Ymgysylltu â newid ymddygiad

## HYFFORDDIANT ÔL GYMHWYSO GWAITH CYMDEITHASOL

Porth Agored – Gweithdai Cyfnerthu
Cymhwyster Addysgwr Ymarfer
Gweithdai Addysgwr Ymarfer
Gofal Iechyd Parhaus
Goruchwyliaeth Fyfyriol
Deddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu Rhyddid - Rôl Gweithwyr Proffesiynol Galluedd Meddyliol

Mae gennym ystod o fodiwlau e-ddysgu ar gael i'r sector gofal cymdeithasol cyfan, gofalwyr a gwirfoddolwyr. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Datblygu'r Gweithlu drwy e-bost at workforcedevelopment@wrexham.gov.uk